YR YSTWYLL 3

ESEIA 9:1-4; SALM 27:1, 4-9;
1 CORINTHIAID 1:10-18; MATHEW 4:12-23

● **Gweddi agoriadol**

Arglwydd Dduw, ein goleuni
a'n hiachawdwriaeth,
goleua'r lle hwn
a phawb sy'n cyfarfod yma
gyda disgleirdeb dy bresenoldeb.
Diffodd y cysgodion
a gosod yn ein calon
fflam gwir addoli,
na all dim ei thagu.

● **Moliant**

Iesu Grist,
Goleuni'r byd,
daethost i'n tywyllwch
yn wawr diwrnod newydd,
a gwres dy gariad
yn llosgi niwl y bore,
yn gwasgaru cymylau,
a datguddio popeth oedd unwaith
yn guddiedig oddi wrth ein llygaid -
yr harddwch sy'n ein hamgylchynu,
y ddaear sy'n ein cynnal,
yr awyr uwch ein pennau,
ein lle a'n pwrpas,
yr un a'n gwnaeth.

Yng ngwawr y dydd newydd
daethost i'n tywyllwch,
oleuni'r byd,
Iesu Grist.

● **Cyffes**

Fe'n gelwi i ddilyn
y llwybr a gerddaist ti;
lle mae caledi
i ddwyn rhyddhad,
lle mae tostrwydd
i ddwyn iachâd,
lle mae tristwch
i ddwyn cysur,
lle mae tywyllwch
i ddwyn goleuni.

Maddau i ni
pan fyddwn yn ddisgyblion anfoddog.
Caniatâ i ni ffydd,
hyder
ac awch
i fod yn ufudd i'th alwad,
a thraed sy'n barod i ddilyn.

● Diolch

Ti, Arglwydd, yw ein hiachawdwriaeth,
y graig y sefwn arni,
y goleuni y cerddwn wrtho,
y grym sy'n ein galluogi i drechu.
Felly byddwn fyw mewn ffydd
heb ofni neb!

Arweinydd: Atat ti yn unig, Arglwydd, y down
Pawb: Gyda'n diolch cywir a'n moliant.

Rwyt ti, Arglwydd, gyda ni wastad,
dy freichiau cariadus amdanom
yn ein gwarchod rhag niwed.
Dy gân di a ganwn,
cân maddeuant,
a'th deyrnas
wedi'i datguddio ar y ddaear.

Arweinydd: Atat ti yn unig, Arglwydd, y down
Pawb: Gyda'n diolch cywir a'n moliant.